## TAITH GERDDED 1
# Parc Belle Vue
Albert Crescent, Penarth, CF64 1BY

Mae modd parcio wrth ymyl y ffordd ac mae safle bws o fewn taith fer ar droed. Mae'r palmant y tu allan i'r parc yn anwastad felly byddwch yn ofalus. Mae 3 mynedfa i'r parc ar Albert Crescent, 2 fynedfa ar Heol Albert a 2 ar Belle Vue Road. Mae ffynnon ddŵr wrth y fynedfa ger y lawnt bowlio ar Albert Crescent. Mae toiledau ar gael yn adeilad y prif bafiliwn (os ar agor)- mynediad i'r anabl.




Mae toiledau cyhoeddus hefyd (glân iawn) ar gael ar Albert Road sydd 2 funud yn unig ar droed o'r parc. the park.

Mae 8 o feinciau hwnt ac yma ym Mharc Belle Vue. Gan ddechrau wrth y fynedfa ar Albert Crescent mae goledd tua'r dde sy'n mynd â chi i gornel uchaf y parc.

Mae llawer o goed a blodau gwyllt yn y parc ac ardal lawnt gyda llwybr concrit o'i hamgylch, sy'n eich galluogi i gerdded yn hawdd o amgylch y parc.



Mae golygfeydd hyfryd o dop y parc a gallwch gerdded o gwmpas y parc cyfan o fewn rhyw 10-15 munud o gerdded yn hamddenol.

Mae man chwarae i blant ar ochr chwith y parc a llwybr concrit.



Gallwch gerdded o gwmpas y parc neu fynd yn eich blaen i **Daith Cerdded 3.**




## TAITH GERDDED 2
# Parc Alexandra
Rectory Road, Penarth, CF64 3AN.

Dechreuwch wrth y brif fynedfa ar Rectory Road os am fynd i Barc Alexandra. Mae 3 llwybr i chi ddewis rhyngddynt ym Mharc Alexandra.





| | |
|---|---|
| Mae LLWYBR ① | yn wastad |
| Mae LLWYBR ② | yn mynd tuag i lawr |
| Ar LWYBR ③ | mae grisiau lawr i lwybr is |

Mae Cofeb Rhyfel Corea (sy'n werth ei gweld) i'r dde o'r man lle mae'r tri llwybr yn dechrau.

LLWYBR ① Taith gerdded wastad/i lawr tuag at y safle bandiau heibio i lawer o welyau blodau hyfryd a chelf coed



LLWYBR ② Llwybr cul tuag at i lawr

LLWYBR ③ Grisiau i lawr i lwybr cul ychydig yn anwastad



Yng nghanol y parc fe welwch safle bandiau

Mae pob llwybr yn eich arwain o amgylch y parc ac mae pob un yn werth ei archwilio, ac maen nhw i gyd yn amrywio o ran pa mor anodd y maen nhw i'w cerdded

Mae grisiau i'r dde y gallwch eu defnyddio i weld y Pwll Pysgod a'r Tŷ Adar.

Mae llawer o feinciau hwnt ac yma yn y parc a llawer o fannau glaswelltog sy'n ddelfrydol ar gyfer picnic. Heibio i'r pwll pysgod, mae man chwarae â gât i blant.



Yna gallwch ddilyn y grisiau serth bach sy'n eich arwain allan o'r parc neu ddilyn y llwybr i'r dde i fynd â chi i fyny ac yn ôl i'r parc.





# TAITH GERDDED 3

## O Barc i Barc

Parc Belle Vue i Barc Alexandra

Gallwch wneud **TEITHIAU CERDDED 1, 2 a 3** drwy ddechrau ym Mharc Belle Vue o fynedfa Albert Crescent.* Ar ôl i chi gwblhau **Taith Gerdded 1** dilynwch y palmant i'r man lle mae'r ffordd yn cwrdd ag Albert Road. Croeswch y ffordd i'r gornel lle ceir eglwys wedi'i thrawsnewid. Dilynwch y palmant tuag i lawr at ganol y dref. Mae'r palmant yn anwastad mewn rhannau, yn enwedig lle mae coed felly byddwch yn ofalus. Cerddwch heibio i'r toiledau cyhoeddus a chroeswch y ffordd ar y groesfan sebra ger y cylchfan yn Windsor Terrace. Cerddwch i lawr y ffordd i'r chwith tuag at y pier. Mae 2 fainc ar Windsor Terrace.

Wedi i chi gyrraedd Rectory Road byddwch yn gweld y fynedfa i Barc Alexandra o'ch blaen.

## Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer TAITH GERDDED 2

Wrth allanfa Parc Alexandra trowch i'r chwith i Bridgeman Road a cherddwch i lawr y bryn byr i gyrraedd y Pier.



*Fe welwch doiledau cyhoeddus ar y pier a digon o leoedd i brynu lluniaeth.*

Mae meinciau ar hyd glan y môr lle gallwch eistedd a mwynhau eich lluniaeth. Os byddwch yn cerdded gyda'r môr i'ch chwith fe welwch barc prydferth iawn Esplanâd Penarth ar y dde i chi, yn ôl o'r brif ffordd ac yn werth ei weld.

Mae llawer o feinciau, coed a blodau yn y parc a golygfeydd gwych o'r môr. Yn ôl ar y brif ffordd gyda'r môr i'r chwith i chi cerddwch tuag at Glwb Hwylio a Rhwyfo Penarth.





## O'r fan hon mae gennych 2 OPSIWN

### OPSIWN 1

Daliwch ati i gerdded gyda'r môr i'r i'r chwith i chi, byddwch yn dechrau dringo'r bryn tuag at ben y clogwyn. Wrth ael y bryn gallwch groesi'r ffordd i fynd i Erddi Windsor.

*Mae toiledau cyhoeddus ym maes parcio pen y glogwyn; taith fer ar droed ychydig ymhellach ar hyd y ffordd*



### OPSIWN 2

Ar ôl pasio Clwb Hwylio a Rhwyfo Penarth gallwch gerdded i fyny'r bryn sy'n eithaf serth ond sydd â rheiliau llaw ag opsiwn grisiau. Pan fyddwch hanner ffordd fe welwch fynedfeydd i Erddi Windsor, un ar y chwith ac un ar y dde



*Pa fynedfa bynnag a ddewiswch, fe welwch wledd o olygfeydd gwych dros môr a'r sianel, lle gallwch hefyd weld Ynys Echni ac Ynys Rhonech.*



Mae'r gerddi wedi'u cynnal a'u cadw'n dda ac yn llawn blodau a choed. Mae safle bandiau a meinciau yno hefyd. Mae'r parc yn eithaf gwastad ac mae'n ddelfrydol ar gyfer taith gerdded hamddenol braf gyda golygfeydd gwych. Cerddwch gyda'r môr i'r dde i chi a byddwch yn croesi llwybr lle mae **OPSIWN 2** yn dechrau. Ewch yn eich blaen at ail hanner Gerddi Windsor

Bydd y llwybr yn dechrau mynd yn fwy serth wrth iddo fynd yn nes at yr allanfa i Bridgeman Road. Croeswch y ffordd ac ailymuno â Pharc Alexandra.

Ewch yn ôl i'r ardal chwarae â giât i blant. Yma gallwch ddewis pa lwybr i'w ddilyn yn ôl i fynedfa uchaf y parc. Wedi i chi gyrraedd mynedfa Parc Alexandra croeswch dros Rectory Road a mynd yn ôl tuag at ganol y dref. Croeswch ar y groesfan Sebra ar Windsor Terrace ac ewch yn eich blaen i fyny'r rhiw tuag at Barc Belle Vue yn ôl i'r man lle dechreuodd y daith gerdded





# BRO MORGANNWG

# TEITHIAU CERDDED PARCIAU PENARTH

*Teithiau cerdded dymunol o amgylch Penarth, gydag opsiynau o ran lefelau ffitrwydd. Yn iachus ac yn llesol ac yn addas ar gyfer pob oedran a gallu*

*Felly ewch i fwynhau.*

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG